Grŵp Ecosystem Coetiroedd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru

27 Ionawr 2010,
Neuadd William Davies - Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS), Prifysgol Aberystwyth

Yn bresennol
Chris Tucker – Comisiwn Coedwigaeth Cymru – Cadeirydd
Lynda Makepeace – Yr Adran Materion Gwledig - LM
Chris Smith – Parc Cenedlaethol Eryri - CS
Jerry Langford – Coed Cadw – JL WL
David Jenkins – Coed Cymru - DJ
Nigel Ajax Lewis – Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru - NAL
Jim Latham – Cyngor Cefn Gwlad Cymru – JL
Reg Thorpe – Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) - RT
Richard Jones – Cyngor Cefn Gwlad Cymru - RJ
Celia Thomas – Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro - CT
Sarah Mellor – Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol - SM
Jane Holloway – Comisiwn Coedwigaeth Cymru – cofnodion

1. Cyflwyniad ac Ymddiheuriadau

Chris Tucker – Agorodd y Cadeirydd 2$^{il}$ gyfarfod y grŵp.
Ymddiheuriadau
Richard Crompton – Grŵp Mamaliaid Cymru (Cadwraeth Ystlumod)
Dr Emma Durward - Cyngor Sir Powys
Trevor Dines – Plantlife Wales

2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cadarnhaodd y grŵp gofnodion y cyfarfod cyntaf.

Y wybodaeth ddiweddaraf am gamau gweithredu o’r cyfarfod diwethaf

- Helen Buckingham – dim datblygiadau hyd yma, bydd y Cadeirydd yn cael cyfarfod â hi a byddant yn trafod bryd hynny.
- Cylch Gorchwyl ar gyfer y grŵp, nid anfonwyd unrhyw sylwadau.
- Anfonwyd targedau.
- Coetiroedd Gwell i Gymru, rhoddir adborth yn nes ymlaen ar yr agenda.
- Jim Latham - adroddiad am y Rhestr Coetiroedd Hynafol (gan ddefnyddio 1,800 o fapiau nad ydynt yn ddigidol) - caiff y manylion eu dosbarthu eto. Prosiect ar y cyd rhwng y Cyngor Cefn Gwlad/Comisiwn Coedwigaeth Cymru i adolygu’r Rhestr Coetiroedd Hynafol - mae Bwrdd Rheoli Comisiwn Coedwigaeth Cymru a Chyngor y Cyngor Cefn Gwlad wedi’i gymeradwyo. Bydd y prosiect yn dechrau gyda phroses dendro dros y ddeufis nesaf.

Bydd eitem yn cael ei chynnwys ar yr agenda yn y dyfodol am y prosiect hwn, gellid gwahodd rhywun sy’n gweithio ym maes cynllunio i’r cyfarfod nesaf – bydd Celia Thomas yn gofyn i Vicky Hurst, pennaeth cynllunio Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.
Awgrymodd DJ ein bod yn gofyn am gynrychiolydd o ardal drefol ac ati.
Rhaid gwirio arweiniad ar hyn o bryd – mae rhywfaint o’r wybodaeth hon yn ddigidol, ond nid y wybodaeth am leiniau rhagod.

- Cylch gorchwyl – mae angen trosglwyddo'r wybodaeth hon i'r Grŵp Polisi.
- A yw'n bosibl cael cyfarfod ar y cyd â'r Grŵp Polisi ar y pwnc hwn?

Pwynt Gweithredu
Dylai'r Cadeirydd anfon cylch gorchwyl / manyleb am hyn at aelodau'r grŵp a chadarnhau cynllun y prosiect â Jim Latham a rheolwr tystiolaeth Comisiwn Coedwigaeth Cymru.
Bydd Jim yn rhoi cyflwyniad am y prosiect hwn yn y cyfarfod nesaf.
Bydd y Cadeirydd yn trafod y posibilrwydd o gynnal cyfarfod ar y cyd â'r Grŵp Polisi.

Gwybodaeth o arolygon
Reg Thorpe – arolwg yr RSPB o nodweddion adar SoDdGA yn rhan o'r adroddiad am adar coetir a gomisiynwyd gan y Cyngor Cefn Gwlad. Nid yw'n glir a fydd yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd.

Arolygon Awdurdodau Lleol

Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol – arolwg 5 mlynedd ledled Prydain Fawr – yn cynnwys cyflwr coetiroedd, amrywiaeth o ran rhywogaethau, amrywiaeth o ran strwythur. Mae 1,500 o safleoedd yng Nghymru. Bydd yn dechrau'r flwyddyn nesaf tan 2014 ar draws Prydain Fawr. Caiff yr amodau a'r manylebau eu rhannu â'r grŵp.

Pwynt Gweithredu
Bydd Jerry Langford yn anfon dolen gyswllt sy'n arwain i gyhoeddiad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.
Bydd y Cadeirydd yn anfon amodau a manylebau'r Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol at aelodau'r grŵp pan fyddant wedi eu cadarnhau.

Pwynt Gweithredu – wedi'i gwblhau, gweler isod
Mae LICC yn monitro Tir Gofal – dyfarnwyd 3 chontract (contract 3 blynedd) – bydd Lynda Makepeace yn anfon gwybodaeth at aelodau'r grŵp.

Mae 'coetir' yn un o'r cynefinoedd a gaiff ei fonitro dan Tir Gofal. Ceir dull o wneud hyn. Mae'n cynnwys samplau 1/4 ha ac yn cofnodi 'nodweddion' y dangosydd perfformiad megis gorchudd canopi, presenoldeb nodweddion dymunol/annymunol (gan gynnwys rhywogaethau estron goresgynnol megis Rhododendronau, Prunus laurocerasi, faint o bren marw sydd yno (yn sefyll ac wedi cwympo) ac ati. Caiff amodau rheoli 1A, 1B ac 1C eu monitro yn yr un modd. Ni cheir mesurau rheoli ar gyfer Tir Gofal na Thir Cynnal a dim ond gwaith monitro elfennol i bennu a yw'r cynefin yn dal i fod yno a wneir dan Tir Cynnal, oherwydd dim ond ar ôl i'r arolygon ddechrau y tynnwyd sylw at fesurau rheoli.

Pwynt Gweithredu – 8 o'r cyfarfod diwethaf – wedi eu cwblhau – anfonwyd at aelodau'r grŵp ym mis Chwefror 2010.
Mae angen i'r Cadeirydd anfon papur asesu amodau.

Mae'r cynllun Gwiwerod Coch wedi'i anfon at y Gweinidog a chafodd ei gymeradwyo. Mae hwn yn mynd rhagddo yn awr.

Grŵp rhywogaethau – mae rhai camau gweithredu yn cael eu datblygu, rydym yn aros am fap.

3. Materion yn Codi

4. Rolau'r Grŵp – Swyddog Cyswllt Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Emma Durwood – rydym yn gobeithio y bydd yn cytuno i wneud hyn – rydym yn aros am gadarnhad
Mae'r Cadeirydd wedi cysylltu ag Emma sydd wedi cytuno'n garedig i gymryd y rôl hon.

Golygydd System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth
Nigel Ajax-Lewis

5. Targedau

Gwaelodlin Cymru ar gyfer coetir brodorol yn adolygiad targedau 2006 yw 24300 ha – yn dilyn gwaith dadansoddi diweddarach ar y Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed, mae'r ffigur hwn wedi newid. Rydym yn ceisio sicrhau bod y ffigur hwn yn cael ei adolygu yn y targedau ar hyn o bryd.
Mae angen i'r Grŵp Adrodd a Gwybodaeth Bioamrywiaeth gymeradwyo'r ffigur newydd, sef 109500 ha.
Mae'r ffigur wedi newid am fod mwy o goed anfrodorol mewn rhai ardaloedd.
Mae'n bosibl y bydd y targed ar gyfer adfer coetiroedd hynafol yn newid pan fydd yr adolygiad o'r Rhestr Coetiroedd Hynafol wedi'i gwblhau.

Pwynt Gweithredu
Bydd y Cadeirydd yn cael gafael ar restr derfynol o'r targedau a pha ffigurau fydd yn newid ar ôl i'r gwaelodlin gael ei newid ar ac ôl i ffigurau'r Rhestr Coetiroedd Hynafol gael eu llunio.

Cafodd y grŵp drafodaeth am goetir brodorol/porfa mewn coetir – gweler y pwyntiau bwled.

- Os byddwn yn adrodd am eu cyflwr, pa mor fanwl y dylai'r adroddiadau fod?
- Creu coetiroedd – dros y 25 mlynedd diwethaf. Newid o ran arferion plannu.
- Gallai'r grŵp edrych ar borfa mewn coetir / ansawdd coetir.
- Dim ond ar y canlynol y mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn edrych - Dosbarthiad coetiroedd y Dosbarthiad Cenedlaethol Llystyfiant (Coetiroedd Gwell i Gymru) – rheoli rhywogaethau Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.

Gallwn roi arweiniad ar gyfer rhywogaethau. Edrych ar Glastir.
Lefel y manylder - mae Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn cynnwys manylion lleol. Nid yw amodau o'r brig i lawr a'r cyflwr ar lawr gwlad yn cyd-fynd.
Mae'r Alban wedi rhannu ardaloedd ac mae ganddi gysylltiadau/parthau clir - mae lefel y manylder yn glir.

Roedd y grŵp yn teimlo nad oes eglurder yng Nghymru o hyd o ran y manylder a'r hyn yr adroddir yn ei erbyn.
Strwythur yng Nghymru – llunio parthau ar gyfer ardaloedd â blaenoriaeth o ran rhywogaethau – mae'r grŵp ucheldiroedd yn creu mapiau corsydd/mapiau mawn. Gallwn geisio cynhyrchu pethau tebyg – mae gwaith y Cyngor Cefn Gwlad yn fan cychwyn ac mae eisoes yn cael ei ddefnyddio.

Gall y grŵp roi arweiniad o ran beth sy'n bwysig yn strategol ym mhob ardal?

A yw'n gyffredin ar draws Cymru? – dim ond ar eu hardal eu hunain y mae Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn edrych.
A yw Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol wedi gweithio dros yr 20 mlynedd diwethaf?
Mae angen i'r Polisi Cenedlaethol gefnogi dull gweithredu rhanbarthol.

Os nad yw Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn gweithio, sut y dylem fynd i'r afael â hyn? – A ddylai'r Cadeirydd gyflwyno'r mater hwn i'r Grŵp Polisi?
Edrych ar systemau ariannu – systemau grant, maent yn seiliedig ar nifer y coed yr ydych yn eu plannu ac nid ar fioamrywiaeth.

Bydd Jim Latham yn creu map ar gyfer y cyfarfod nesaf. Bydd yn cynnwys haenau coetiroedd brodorol i roi arweiniad i Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ac ati o ran cynefinoedd â blaenoriaeth / ardaloedd rhanbarthol. Bydd Reg Thorpe yn cyfrannu at hyn hefyd.
Beth yr hoffem ei wneud â'r safleoedd hyn?
Pa gymhellion sydd ar gael i gyflawni hyn?

Nid mapiau yw'r ateb cyfan (JL WT) – mae angen meini prawf, arweiniad, cyfeiriad – anfonwyd tabl at aelodau'r grŵp ym mis Ionawr. Targed ehangu – bydd tirfeddianwyr yn creu coetiroedd at eu dibenion eu hunain.

- A yw'r grŵp yn hapus â'r categorïau?
- A oes unrhyw dargedau ychwanegol?
- Sut mae diffinio cyflwr?
- Parhad coetiroedd?
- Creu parthau?
- Elfen sy'n ymwneud â'r hinsawdd, angen bod yn bragmatig, gan ystyried materion diwylliant, materion rhywogaeth ac ati.

### Pwynt Gweithredu – Grŵp
Targedau – Dylai'r grŵp anfon 4 targed at Jane Holloway erbyn diwedd mis Chwefror. Yna caiff y targedau eu casglu a'u hanfon at aelodau'r grŵp i'w trafod.

### Pwynt Gweithredu - Cadeirydd
- Bydd y Cadeirydd yn dosbarthu'r gwaith a wnaed ar restr adran 42 a gwblhawyd 2 flynedd yn ôl.
- Bydd y Cadeirydd yn siarad â Stephen Bladwell sydd ar y Grŵp Rhywogaethau.
- Bydd y Cadeirydd yn edrych ar gymorth grant o ran safleoedd Planhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol - siarad â G&R ynghylch: cymhellion ar gyfer ailstocio ar Blanhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol - bydd y Cadeirydd yn edrych ar yr hyn a fydd yn digwydd o ran Coetiroedd Gwell i Gymru ar safleoedd sydd â chyflwr gwell na 51% ac ati.
- Bydd y Cadeirydd yn dosbarthu papur gan Keith Kirby – bydd y targed yn mesur y cyflwr
- Bydd y Cadeirydd yn dosbarthu papurau ynghylch Broneirion a thargedau coetir brodorol y Cynllun Gweithredu Cynefinoedd.

Parhau â gwaith adfer Planhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol – nid yw'n digwydd y tu allan i goedwigoedd cyhoeddus- a ddylem osod targed ar gyfer y sector preifat? Sut y gallwn ni helpu i gyflawni/annog gwaith adfer Planhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol.

Erbyn 2030 rydym yn edrych ar draean o'r ardal, Coedwigaeth Gorchudd Parhaus ar gyfer adfywio coed conwydd yn ogystal â choed collddail.
Geiriad y targed? Pan fydd coetir wedi sicrhau mwy na 50% - mae NAL yn dweud y dylem ei gynyddu i 75% - asesiad o'r safle – lefelau bygythiadau?
Mae cyflwr yn cael ei asesu fesul safle.
Mae perygl y gall Cynllunwyr Rheoli fod yn cynllunio 49% o goed conwydd a 51% o goed onn, a yw'n amod ar gyfer cymorth grant?

Trafodaeth am darged ehangu – pwyntiau isod

- Blaenau'r Cymoedd
- Cornchwiglod
- Mae Coed Cadw yn ymgyrchu dros fwy o ehangu (gan gynnwys gwrychoedd/ coed, nid planhigfeydd yn unig). Rhaglen creu coetiroedd Coetiroedd i Gymru. 350 ha y flwyddyn 8000 ha erbyn 2025.
- Darllen yr adroddiad
- Targedau Coetiroedd i Gymru
- Yr RSPB – ble mae coetir newydd yn mynd?
- Gallem roi arweiniad o ran ble y dylai coetir newydd fynd
- Beth sy'n ymarferol? Dibynnu ar adnoddau? Proses symlach ar gyfer grantiau?
- Ased trosglwyddadwy

Pwynt Gweithredu
Jerry Langford – Bydd yn dosbarthu papur i'r grŵp

Targedau ar gyfer Rhywogaethau

Mae angen trafod rhywogaethau coed, pa rai a ffefrir – rhestr coed arbennig – mae rhai ar restr adran 42. Coed y tu allan i goetiroedd

- A oes targedau gennym?
- Coed y tu hwnt i goetiroedd.
- Coed trefol.

Materion Polisi
I'w cyfleu i'r Grŵp Polisi

1. Targed Colli Dim – Adrodd am golli coetiroedd a sut y gallwn gael awdurdodau cynllunio i adrodd. Mae rhai awdurdodau yn well na'i gilydd wrth adrodd yn ôl.

Mae Castell-nedd / Port Talbot yn adrodd yn ôl yn flynyddol i'r 5 metr ciwbig agosaf.
Colli yng nghyswllt strategaethau cymunedol – mae rhai yn adrodd yn ôl yn flynyddol.
Delweddau o'r awyr – coed wedi eu torri'n anghyfreithlon – synhwyro o bell– System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS)/ (LiDar)– targedau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth

- Mae angen adrodd am golli coetiroedd drwy'r broses gynllunio a choetiroedd a gollwyd yn anghyfreithlon.

- Colli coetir hynafol o'r Rhestr Coetiroedd Hynafol a cholli coetir cyffredinol – gan gynnwys prysgwydd?

CYTUNWYD Y DYLID EU CYFLWYNO I'R GRŴP POLISI

2. Prosesau Coetiroedd Gwell i Gymru – Dehongli mapiau a diffiniadau'r rhwydwaith cynefinoedd coetir.

- Ni chaiff gwaith bioamrywiaeth ar raddfa fach ei ariannu'n dda – felly nid oes pwrpas ei wneud!
- Mae Cynllunwyr Rheoli sy'n mynd at y perchennog yn glir – nid ydynt yn cyflawni gwaith cynllunio hirdymor. Mae angen i'r grŵp hwn lunio rhestr o broblemau a'i chyflwyno'n syth i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru.
- Ceir dolenni cyswllt nad ydynt yn gweithio ar wefan Coetiroedd Gwell i Gymru ac mae angen mynd i'r afael â hyn.
- A ddylai Coetiroedd Gwell i Gymru dynnu materion at sylw'r Grŵp Polisi?

Cytunwyd y dylid codi'r materion hyn yn uniongyrchol â Chomisiwn Coedwigaeth Cymru yn gyntaf yna mynd ymlaen i Grŵp Polisi Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru os na cheir ymateb boddhaol.

TYNNU SYLW'R GRŴP POLISI AT Y MATERION HYN FEL PROBLEM BOSIBL I'R GRŴP HWNNW

- Beth y mae Coetiroedd Gwell i Gymru yn ei fonitro?

3. Newid yn yr Hinsawdd – gan gynnwys effaith ar fioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystemau a ddarperir gan goetiroedd.

Materion y Grŵp Ecosystem Coetiroedd – mae angen i bawb roi sylwadau ar adroddiad y Grŵp Defnydd Tir a Newid Hinsawdd pan gaiff ei ddosbarthu

Pwynt Gweithredu

Cadeirydd – adroddiad y Grŵp Defnydd Tir a Newid Hinsawdd – a yw Clive Thomas yn fodlon dosbarthu fersiwn ddrafft ddiweddaraf yr adroddiad i'r grŵp?

4. Sicrhau bod coetir na chaiff ei reoli yn cael ei reoli mewn modd cynaliadwy

- Dulliau rheoli iawn yn y lle iawn
- Prif flaenoriaethau – mathau o reolaeth

Mae angen cynnwys materion y Grŵp Ecosystem Coetiroedd yn nhargedau a chynllun gweithredu'r grŵp hwn.

5. Grantiau – Camau cyntaf a Glastir

- DJ – edrych ar system yr Alban.
- JL – trefnu gweithdy sy'n edrych ar y cynlluniau – gofynnwyd i'r Cyngor Cefn Gwlad/ Comisiwn Coedwigaeth Cymru edrych ar y rhain.
- Mae angen sicrhau ei bod yn rhwydd i dirfeddianwyr blannu coed a gwneud gwaith rheoli coetiroedd mewn ardaloedd bach, a sicrhau taliadau rheoli hyblyg.
- Rhaid i reolwyr prosiect helpu i arwain y broses o ymgeisio am grantiau a'u gweithredu ac ati.

MATER I'R GRŴP POLISI

6. Creu ac adfer cynefinoedd – coetir neu gynefin arall

- Mae angen cael meini prawf gan y Grŵp Polisi– nid ar gyfer planhigfeydd yn unig ond o ran coetiroedd brodorol a choed unigol

MATER I'R GRŴP POLISI.

Coed Cadw – nid yw'n defnyddio'r System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth am ei fod yn teimlo bod dyblygu gwaith yn digwydd. (JL WT)

Rhaid i Goetiroedd Gwell i Gymru beidio ag effeithio ar gynefinoedd lled-naturiol eraill. Awgrymwyd y dylid gwahodd rhywun o Goetiroedd Gwell i Gymru i gyfarfod yn y dyfodol a rhoi rhestr o gwestiynau iddo/iddi i'w trafod.

Nid yw safleoedd yn cael eu monitro – dylid rhoi gwybod i'r Grŵp Polisi am hyn (gwaith y Cyngor Cefn Gwlad ar ACA a SoDdGA). Mae angen gwneud mwy o waith monitro, mae angen mwy na dim ond grantiau, monitro targedau, y targed ehangu, - mae angen monitro nifer o safleoedd allweddol i gael data da.

Pwynt Gweithredu
Bydd y Cadeirydd yn siarad â Chadeiryddion grwpiau eraill ynghylch beth i'w wneud a sut i fwrw ymlaen â gwaith monitro.

7. Polisi rhywogaethau estron goresgynnol (CS)
Mater i'r Grŵp Ecosystem Coetiroedd (gweler y tabl a anfonwyd ers y cyfarfod ar gyfer cyswllt â'r Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynnol).

8. Marchnadoedd ar gyfer pren – nid yw'n fater i'r Grŵp Polisi
Siarad â Chris Edwards – Partneriaeth Fusnes Coedwig Cymru
A fu cynnydd mewn trwyddedau torri coed? – Nid yw'r Cadeirydd yn credu y bu cynnydd.

DJ – targedu rhywogaethau y dylem fod yn eu plannu
Mae pren marw/coed tân yn broblem.
Mater i'r Grŵp Ecosystem Coetiroedd

Llygredd – nid yw'n fater i'r Grŵp Polisi
Coetir iawn yn y lle iawn.
Sut y gall coetiroedd helpu/atal llygredd.
Arfer da o ran rheoli coedwigoedd – mae canllawiau ar gael eisoes – annog pobl i'w dilyn.
Mater i'r Grŵp Ecosystem Coetiroedd

Adfer Gwiwerod Coch yn ardal Gŵyr - Nid yw'n fater i'r Grŵp Polisi
LICC – Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn datblygu strategaeth

Adfer yr holl goetiroedd hynafol - 1 o'r 5 prif fater - dylid siarad â Choetiroedd Gwell i Gymru yn gyntaf ac os na cheir gweithredu, dylid siarad â'r Grŵp Polisi. Rhaid cynnal cyfarfod nesaf y Grŵp Polisi cyn mis Mai.
Cyflwyno argymhellion i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru am grantiau Coetiroedd Gwell i Gymru i adfer yr holl goetiroedd hynafol.

Mae angen trafod bioddiogelwch – FR – Hugh Evans – pwnc/gwestai posibl ar gyfer yr agenda?
Y 5 prif fater i'r Grŵp Polisi yn unig.
Gweithredu, pawb – cadarnhau'r materion i'w codi yn y Grŵp Polisi fel y nodir yn y tabl isod. Yna bydd y Cadeirydd yn eu trosglwyddo i'r Grŵp.

Tabl o Faterion Polisi

| | Mater | Gweithredu a Awgrymir |
|---|---|---|
| 1 | Mae'n anodd mesur y targed Colli Dim Coetir gan nad oes gwaith cofnodi wedi'i gydlynu yn digwydd o ran coetiroedd a gollir drwy'r broses Gynllunio neu yn anghyfreithlon. | Sicrhau bod Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cael gwybod am yr holl achosion o golli coetir drwy arweiniad |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cynllunio. |
| 2 | Grantiau – Glastir a Chamau Cyntaf Coetiroedd Gwell i Gymru – mae angen iddynt ei gwneud yn rhwydd i dirfeddianwyr blannu coed a gwneud gwaith rheoli coetir. Dylai swyddogion prosiect helpu wrth wneud ceisiadau a gweithredu cynlluniau – hon yw'r ffordd orau o sicrhau bod cynlluniau grant yn effeithiol. | Dylai'r Grŵp Polisi godi hyn â chynllunwyr cynllun Glastir. |
| 3 | Creu/ehangu cynefinoedd. Bydd galw am dir i ehangu cynefinoedd arno. Gwrthdaro posibl rhwng cynefinoedd brodorol. | Rhaid i'r Grŵp Polisi ddarparu meini prawf neu gyfarwyddyd i Grwpiau Ecosystem ynghylch targedu tir ar gyfer ehangu cynefinoedd. |
| 4 | Adfer Coetiroedd Hynafol. Y tu allan i'r ystâd gyhoeddus, sut y gallwn gymell pobl i adfer Planhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol? Bydd y Grŵp Ecosystem Coetiroedd yn siarad â Chomisiwn Coedwigaeth Cymru yn gyntaf ond efallai y bydd angen help gan y Grŵp Polisi. Bydd adolygu'r Rhestr Coetiroedd Hynafol yn esgor ar oblygiadau y tu hwnt i reolwyr coetiroedd. | Gwahoddiad gan y Grŵp Ecosystem Coetiroedd i gynnal cyfarfod ar y cyd â'r Grŵp Polisi o ran adolygu'r Rhestr Coetiroedd Hynafol a sut mae sicrhau bod llywodraeth ehangach, yn genedlaethol ac yn lleol, yn ymwybodol o'r goblygiadau. |
| 5 | Amryw faterion sy'n codi o'r ffaith nad yw Coetiroedd Gwell i Gymru yn cynnig digon o gymhellion ar gyfer gweithredu er lles bioamrywiaeth. | Mae hyn yn cael ei godi â Chomisiwn Coedwigaeth Cymru yn uniongyrchol ond bydd angen codi ymwybyddiaeth y Grŵp Polisi am y broblem bosibl os nad yw ymateb y Comisiwn yn foddhaol. |

## 4. Cynllun Gweithredu

Mae angen llenwi taenlen camau gweithredu Ecosystemau.

Sawl blwyddyn y mae'r cynllun gweithredu yn ei gwmpasu ar gyfer Coetiroedd i Gymru – 5 mlynedd

**Pwynt Gweithredu, pawb**
Llenwi'r tabl sy'n cynnwys camau gweithredu i'r grŵp a'i anfon at Jane Holloway. Dosbarthwyd templed gweithredu cyn y cyfarfod hwn. Bydd y Cadeirydd yn casglu'r camau gweithredu ac yn paratoi drafft terfynol ar gyfer y cyfarfod nesaf.

## 5. Cynllun grant Coedwigoedd Bach

Mae'n rhan o Goetiroedd Gwell i Gymru - llai na 20ha, y lleiaf yw .25ha - mae cyfradd y grantiau yr un fath â chynllun llawn Coetiroedd Gwell i Gymru.
Daw cynlluniwr rheoli allan a'r bwriad yw ei gwblhau cyn pen 3 mis.
Mae rhai materion sy'n gysylltiedig â mapio yn arafu'r broses.
Nid oes angen rhoi'r coetir cyfan i mewn, gallwch gael 2 ardal fach o goetir ar yr amod nad ydynt yn fwy na 20ha gyda'i gilydd.

Camau Cyntaf - mae rhanddeiliaid yn ymgynghori ar hwn ar hyn o bryd. Cynllun symlach, ceir 2 gynllun peilot ar hyn o bryd drwy Goed Cymru.
19 Chwefror yw'r dyddiad cau ar gyfer ymgynghori.

Dylid canolbwyntio ar faes allweddol – cynlluniau grant

6. Unrhyw Fater Arall

7. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

4 Mai 2010 yn IBERS – Ystafell William Davies 10am – 3.30pm